Ymddiriedaeth Caredigrwydd Gobaith

**“ Gyda’n gilydd, byddwn yn rhoi diwedd ar dlodi”**

**POLISI CLWYDALYN**

# Polisi Taliadau Gwasanaeth

**IMS/CAS-POL-08c)**
**Fersiwn 1**

**Gallwn ddarparu’r ddogfen hon mewn fformatau eraill. I wneud cais am fformat gwahanol, cysylltwch â’r tîm rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk**

ClwydAlyn

ClwydAlyn Housing Limited
72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JD

ClwydAlyn Housing Limited
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17 0JD

## Cysylltwch â ni

| | | |
|---|---|---|
| | Gwasanaeth i Gwsmeriaid | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 – 17:00 Rhadffôn o linell tir 0800 183 5757 neu 01745 536800 |
| | Gwaith trwsio argyfwng y tu allan i oriau | 0300 1233091 neu anfonwch neges destun 07786 202533 (cofiwch gynnwys eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn yn eich neges). |
| | E-bost/ar-lein | help@clwydalyn.co.uk neu ar-lein @ https://www.myclwydalyn.co.uk/ |
| | Cyfeiriad post | 72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JD |

## #Dylanwadwch

Hoffech chi gael cyfle i roi adborth ar y pethau sy'n bwysig i chi fel preswylydd ClwydAlyn? Hoffech chi ein helpu i lunio a gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i chi? Allwch chi sbario munud neu ddau, neu ychydig oriau bob mis? Os felly, dyma eich cyfle i ddod yn Ddylanwadwr gyda ClwydAlyn, felly cliciwch ar ein ffurflen #Dylanwadwch neu anfonwch e-bost atom influenceus@clwydalyn.co.uk

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y ddogfen hon yn gynhwysol i bawb. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r tîm rheoli dogfennau yn hsqe@clwydalyn.co.uk

## Gwybodaeth am Ddogfennau /Rheoli Dogfennau

Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad y cytunwyd arno sy'n cynnwys y set o egwyddorion sy'n gweithredu fel canllawiau i gyflawni nodau ClwydAlyn. Ni ellir newid y ddogfen hon oni bai y rhoddir awdurdod i wneud hynny gan ddefnyddio'r nodyn awdurdodi newid dogfen QF-F-10.

Cedwir y copi meistr gan y Rheolwr Dogfennau, cedwir y fersiwn PDF yn SharePoint ClwydAlyn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

## Rhif Cyhoeddi a Hanes Adolygu

| Rhif y Fersiwn | Manylion Adolygu /Rheswm dros newid | Awdur | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| V1 | Cyhoeddiad cyntaf y ddogfen a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Preswylwyr 29 Ebrill 2026 | Jenni Griffiths | 29/04/2026 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Cynnwys


1 **Pwrpas** ... 3

2 **Cwmpas** ... 3

3 **Fframwaith Cyfreithiol a Rheoleiddiol** ... 3

4 **Diffiniad o Daliadau Gwasanaeth** ... 3

5 **Egwyddorion ar gyfer pennu Taliadau Gwasanaeth** ... 4

6 **Mathau o Daliadau Gwasanaeth** ... 4

7 **Cyfrifo a Dosrannu** ... 4

8 **Ymgynghori a Chyfathrebu** ... 5

9 **Biliau a Thaliadau** ... 5

10 **Rheolaeth Ariannol ac Atebolrwydd** ... 6

11 **Cronfeydd wrth gefn** ... 6

12 **Cwynion ac Anghydfodau** ... 6

13 **Cydraddoldeb a Hygyrchedd** ... 6

14 **Monitro ac Adolygu** ... 6

## 1 Pwrpas

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut mae ClwydAlyn yn pennu, rheoli, ac yn casglu taliadau gwasanaeth. Ei nod yw sicrhau bod pob taliad yn cael ei gymhwyso mewn ffordd sy'n deg a thryloyw, ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a disgwyliadau rheoleiddiol Cymru. Mae'r sefydliad yn ymroddedig i ddarparu gwybodaeth glir i breswylwyr a deiliaid les, tra'n sicrhau cynaliadwyedd ariannol a darparu gwerth am arian o ran y gwasanaethau a gyflenwir.

## 2 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn gymwys i holl breswylwyr ClwydAlyn, gan gynnwys deiliaid les a chyd-berchnogion y gallent fod yn byw mewn anheddau unigol, y bydd gan rai ohonynt ardal gyffredin neu ardal a rennir.

Nid yw'r polisi hwn yn gymwys i eiddo masnachol a Chartrefi Gofal.

## 3 Fframwaith Cyfreithiol a Rheoleiddiol

Bydd ClwydAlyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r canlynol:

- Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985
- Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1987
- Deddf Deiliadaeth ar y Cyd a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019
- Safon Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru

Yn unol â'r gofynion hyn, bydd ClwydAlyn yn sicrhau bod taliadau gwasanaeth yn:

- Rhesymol
- Adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir mewn gwirionedd, ac yn
- Seiliedig ar y costau a dynnwyd

Bydd gwasanaethau a ariennir gan daliadau gwasanaeth yn cael eu cyflenwi i safon briodol.

## 4 Diffiniad o Daliadau Gwasanaeth

Mae taliadau gwasanaeth yn daliadau gan breswylwyr neu lesddeiliaid am wasanaethau, gwaith trwsio, cynnal, neu welliannau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhent craidd.

Mae'r rhain fel arfer yn ymwneud â gwasanaethau cyffredin neu wasanaethau a rennir fel glanhau, goleuadau, cynnal tiroedd, gwasanaethu lifftiau, ac yswiriant adeiladau.

## 5 Egwyddorion ar gyfer pennu Taliadau Gwasanaeth

Bydd ClwydAlyn yn sicrhau bod Taliadau Gwasanaeth yn seiliedig ar wir gostau neu amcangyfrifion rhesymol darparu gwasanaethau. Wrth bennu taliadau, byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried eu fforddiadwyedd i breswylwyr, ac yn cydbwyso hynny yn erbyn yr angen i gynnal ansawdd gwasanaethau a hyfywedd ariannol.

Mae tryloywder yn ganolog i hyn. Bydd taliadau gwasanaeth yn cael eu nodi ar wahân i'r rhent, a bydd preswylwyr yn derbyn gwybodaeth ddealladwy ynglŷn â'r hyn maent yn talu amdano.

Bydd ClwydAlyn yn ceisio sicrhau gwerth am arian drwy adolygu gwasanaethau, trefniadau caffael, a chontractau yn rheolaidd.

Bydd taliadau yn cael eu dyrannu mewn ffordd deg, gan adlewyrchu'r budd a roddir i'r preswylwyr. Bydd y fethodoleg a ddefnyddir yn gyson ac yn gyfiawnadwy, yn cael ei hesbonio'n glir ac ar gael i breswylwyr.

## 6 Mathau o Daliadau Gwasanaeth

Gall taliadau gwasanaeth fod yn sefydlog neu'n newidiol:

**Taliadau Sefydlog**: Yn cael eu pennu ymlaen llaw a ddim yn newid yn ystod y flwyddyn.

**Taliadau Newidiol**: Mae taliadau newidiol yn seiliedig ar gostau amcangyfrifedig ac maent yn ddarostyngedig i addasiadau unwaith y bydd y gwir gostau yn hysbys. Pan ddefnyddir taliadau newidiol, bydd datganiad blynyddol o'r cyfrifon yn cael ei ddarparu i ddangos y gwir wariant yn erbyn yr incwm a gasglwyd a bydd yn dangos unrhyw arian dros ben neu ddiffygion yn y cyfrifon.

## 7 Cyfrifo a Dosrannu

Wrth gyfrifo taliadau gwasanaeth, bydd ClwydAlyn yn defnyddio cyfuniad o ddata costau hanesyddol, prisiau contractau a gwariant amcanedig. Cytunwyd ar y fethodoleg ar gyfer cyfrifo cost pob taliad gwasanaeth ac mae'r manylion i'w gweld yn yr Atodiad i'r polisi hwn.

Mae'n ofynnol i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol gymeradwyo unrhyw wyriad oddi wrth y fethodoleg a gytunwyd.

Os bydd yn ofynnol i ddyrannu costau ar draws eiddo, defnyddir dull sy'n cael ei ystyried yn deg ac yn rhesymol i wneud hyn, a allai gynnwys rhannu'n gyfartal neu gyfrifo ar sail maint yr eiddo, y math o eiddo, neu lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd. Yn achos lesddeiliaid, bydd y dull dyrannu wedi'i ddiffinio yn y Les.

## 8 Ymgynghori a Chyfathrebu

Mae ClwydAlyn yn ymroddedig i ymgysylltu â phreswylwyr ynglŷn â'r gwasanaethau maent yn eu derbyn a'r taliadau maent yn eu talu.

Byddwn yn ymgynghori â phreswylwyr ynglŷn â newidiadau sylweddol i wasanaethau neu drefniadau taliadau gwasanaeth. Yn ogystal, os bydd gwaith neu gontractau yn bodloni'r trothwyon statudol, bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ffurfiol â lesddeiliad yn unol ag Adran 20 Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985.

Byddwn yn cyfathrebu'n glir gyda'n preswylwyr am daliadau gwasanaeth, gan gynnwys rhoi rhybudd ymlaen llaw am unrhyw newidiadau lle bo'n bosibl.

Bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd hygyrch a hawdd ei deall, a byddwn yn rhoi gwybod i breswylwyr sut gallant fynegi pryderon neu gwynion.

## 9 Biliau a Thaliadau

Byddwn yn anfon biliau am daliadau gwasanaeth yn unol â thelerau'r Contract Meddiannaeth, Trwydded, neu Gytundeb Les, naill ai gyda'r taliadau rhent neu fel taliad ar wahân lle nad oes taliadau rhent.

Bydd y wybodaeth a roddir i breswylwyr yn gwahaniaethu'n glir rhwng taliadau gwasanaeth a rhent ac yn rhoi digon o fanylion i esbonio'r costau dan sylw.

Yn achos taliadau newidiol, bydd preswylwyr yn derbyn datganiad blynyddol sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng costau amcangyfrifedig a gwir gostau, ynghyd ag unrhyw addasiadau sydd eu hangen.

## 10 Rheolaeth Ariannol ac Atebolrwydd

Bydd ClwydAlyn yn cadw cofnodion ariannol cywir a thryloyw am daliadau gwasanaeth. Mae gan breswylwyr yr hawl i wneud cais i gael gwybodaeth am y ffordd y cafodd taliadau eu cyfrifo ac i weld y ddogfennaeth ategol yn unol â gofynion cyfreithiol.

Os bydd taliadau newidiol yn arwain at weddill neu ddiffyg ariannol, bydd camau priodol yn cael eu cymryd naill ai i ad-dalu, casglu, neu gario'r arian sy'n weddill ymlaen mewn ffordd gyson a theg.

## 11 Cronfeydd wrth gefn

Mewn rhai achosion, gall y sefydliad gasglu cyfraniadau tuag at gronfeydd wrth gefn neu gronfeydd ad-dalu ar gyfer costau gwaith trwsio neu adnewyddu mawr yn y dyfodol. Bydd y cronfeydd hyn yn cael eu rheoli'n gyfrifol a'u defnyddio at y diben a fwriadwyd yn unig. Bydd cyfraniadau yn cael eu pennu ar lefel rhesymol a bydd preswylwyr yn cael gwybodaeth glir am hyn.

## 12 Cwynion ac Anghydfodau

Gall preswylwyr sy'n anfodlon ag unrhyw agwedd ar eu taliadau gwasanaeth godi'r mater drwy ddilyn gweithdrefn gwyno ClwydAlyn. Os na ellir datrys y mater yn fewnol, gall preswylwyr gyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae gan lesddeiliad hefyd yr hawl i herio taliadau gwasanaeth mewn tribiwnlys priodol.

## 13 Cydraddoldeb a Hygyrchedd

Mae ClwydAlyn yn ymroddedig i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei roi ar waith mewn ffordd deg a chyson. Bydd gwybodaeth am daliadau gwasanaeth yn cael ei darparu mewn fformatau hygyrch, a bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo'r angen i fodloni anghenion preswylwyr unigol.

## 14 Monitro ac Adolygu

Bydd taliadau gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o broses cynllunio ariannol ClwydAlyn.

Bydd y polisi hwn hefyd yn cael ei adolygu bob 3 blynedd i sicrhau ei bod yn dal i gydymffurfio â deddfwriaeth, safonau rheoleiddiol, ac arfer gorau.